

SESIWN 3: Defnyddio grwpiau gweithredu cyfunol i ddeall mesurau canolduedd

Pwnc: Mathemateg

Ystod oedran: 11-14 oed

Amser: 1 awr

<p>Amlinelliad Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i gysyniadau cymedr, canolrif a modd, a deall y gwahaniaethau rhwng y tri mesur. Bydd dysgwyr yn adnabod nodweddion siartiau amlder o ran mesurau canolduedd.</p>	
<p>Amcanion Dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu dealltwriaeth o wahanol ffyrdd i gyfrifo mesurau canolduedd 	<p>Deilliannau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn cymharu cymedr, canolrif a modd gan ddefnyddio'r un data Bydd dysgwyr yn ystyried sut mae siâp dosraniadau amlder yn effeithio ar eu cyfartaleddau
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Pa effaith mae defnyddio cymedr, canolrif a modd yn ei chael ar ganlyniadau? Pa effaith mae cynnwys gwerthoedd ychwanegol yn ei chael ar y cymedr, canolrif a modd? Pa fesur canolduedd yw'r gorau i'w ddefnyddio? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> Sioe sleidiau 3 Taflen waith Dysgwyr 3A: Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Taflen waith Dysgwyr 3B: Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd o Ddiagramau Amlder wedi'u Grwpio Taenlen: Sesiwn 3

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

<p>Lloegr <i>Mathemateg</i> Dylid addysgu'r disgyblion i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ddisgrifio, dehongli a chymharu dosraniadau a arsylwyd o newidyn unigol drwy: cynrychiolaeth graffigol briodol sy'n cynnwys data arwahanol, parhaus ac wedi'u grwpio; a mesurau priodol o ganolduedd (cymedr, modd, canolrif) a lledaeniad (amrediad, ystyried allanolynnau) 	<p>Cymru <i>Mathemateg Cyfnod Allweddol 3</i> Defnyddio sgiliau data: casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, dehongli canlyniadau</p> <ul style="list-style-type: none"> llunio a dehongli graffiau a diagramau (gan gynnwys siartiau cylch) i gynrychioli data arwahanol neu barhaus dehongli diagramau a graffiau i gymharu setiau o ddata dod o hyd i'r cymedr, canolrif, modd ac amrediad o dablau amlder wedi'u grwpio ac esbonio pam mai amcangyfrif ydyw 	<p>Yr Alban <i>Rhifedd a mathemateg</i></p> <p>Gallaf weithio ar y cyd, gan wneud defnydd priodol o dechnoleg, i ddod o hyd i wybodaeth a gyflwynir mewn amrywiaeth o ffyrdd, dehongli hyn y mae'n ei gyfleu a thrafod a wyf yn credu bod yr wybodaeth yn gadarn, yn amwys neu'n gamarweiniol. 3-20a 2and MNU</p> <p>Gallaf arddangos data mewn ffordd glir gan ddefnyddio graddfa addas, trwy ddewis yn briodol o ystod estynedig o dablau, siartiau, diagramau a graffiau, gan wneud defnydd effeithiol o dechnoleg. MTH 2 a 3-21a</p>
---	---	---



I Ddechrau (10 mun)

Gofynnwch i'r dysgwyr pa fath o wybodaeth fyddai'n ddiddorol i'w chymharu yn y menywod sy'n perthyn i grwpiau gweithredu cyfunol. Bydd Sleid 3 yn sioe sleidiau 3 yn cefnogi'r drafodaeth hon. Efallai y byddant yn awgrymu:

- oed
- cyfoeth
- lefel addysg
- statws priodasol
- statws o ran bod yn berchen ar gartref
- faint o fêl a gynhyrchir

Gofynnwch i'r dysgwyr beth mae mesur o ganolduedd neu gyfartaledd yn ei olygu. Pam efallai y byddem yn defnyddio cyfartaledd yn hytrach nag edrych ar set ddata lawn? A fyddai'n bosibl cyfrifo cyfartaleddau ar gyfer yr holl feysydd a awgrymir uchod? Gallai dysgwyr drafod y cwestiynau hyn mewn parau neu fel grŵp – bydd sleid 6 yn sioe sleidiau 3 yn cefnogi'r drafodaeth hon.

Bydd llawer o ddysgwyr wedi dysgu sut i gyfrifo'r cymedr yn yr ysgol gynradd (fel yr unig fesur o ganolduedd yn y cwricwlwm cynradd). Efallai y bydd rhai yn gwybod y ddau fesur arall - canolrif (canol) neu fodd (mwyaf poblogaidd).

Dangoswch y diffiniadau o'r tri mesur o ganolduedd ar sleid 7 yn sioe sleidiau 3.

Gweithgaredd 3.1 (15 mun)

Cyfrifo cymedr, canolrif a modd

Gan ddefnyddio naill ai taflenni 1-8 yn nhaenlen: Sesiwn 3 neu daflen waith dysgwyr 3A: Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia, gofynnwch i'r dysgwyr gyfrifo'r cymedr, canolrif a modd ar gyfer sampl o ddata ar gyfer aelodau grŵp a'r rhai nad ydynt mewn grŵp a chymharu eu hatebion. Mae chwe sampl ar hap o 30 o fenywod - tri gyda data ar gyfer aelodau grŵp WCA a thri gyda data ar gyfer y rhai nad ydynt mewn grŵp.

Gall dysgwyr ailadrodd y broses hon ar gyfer detholiad o newidynnau gwahanol i aelodau grŵp a'r rhai nad ydynt mewn grŵp. Mae naw newidyn i ddewis o'u plith. Nid yw pob un o'r newidynnau yn darparu data sy'n synhwyrol er mwyn gweithio allan pob un o'r tri mesur canolduedd, ond mae hon yn drafodaeth bwysig i'w chael gyda dysgwyr. Y ddau newidyn symlaf i ddysgwyr weithio â hwy yw swm y mêt a gynhyrchir a'r canran sy'n cael ei farchnata.

I gwblhau'r gweithgaredd, dylai dysgwyr ysgrifennu paragraff byr am yr hyn y mae'r tri mesur canolduedd yn dweud wrthynt, er enghraifft, 'Mae moddau XX a YY yn dweud wrthym fod aelodau grŵp yn cynhyrchu mwy o fêl na'r rhai nad ydynt mewn grŵp.

Mae'n werth atgoffa dysgwyr eu bod yn defnyddio sampl fechan iawn o ddata, felly bydd unrhyw gasgliadau y maent yn dod iddynt yn wahanol i'r rhai ar gyfer y set ddata lawn.

Gweithgaredd 3.2 (15 mun)

Llunio diagram amllder wedi'u grwpio

Dangoswch y graff amllder ar gyfer sampl ar hap o gynhyrchu mêl gan 100 o fenywod ar sleid 8 yn sioe sleidiau 3. Mae'r graff hwn wedi cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio data heb eu grwpio.

Gofynnwch i'r dysgwyr sut y gallem llunio diagram tebyg heb gymaint o fariau. Yna esboniwch pam mae grwpio data mewn diagramau amllder yn gwneud mwy o synnwyr wrth blotio symiau mawr o ddata.

Trafodwch sut i grwpio'r data i mewn i ddosbarthiadau lled cyfartal, yna esboniwch sut i llunio diagram amllder ar gyfer y data hyn a dangos y tabl o ddata wedi'u grwpio i'r disgyblion, a'r diagram amllder terfynol ar sleid 10 yn sioe sleidiau 3. Soniwch nad oes bylchau rhwng y bariau gan fod y dosbarthiad yn barhaus. Dyma'r prif wahaniaeth rhwng siart amledd/histogram a siart bar.

Pwysleiswch bwysigrwydd graddfa ar hyd yr echelin-x, labelu pen y bariau, labelu'r echelin a bariau o led cyfartal.

Gan ddefnyddio un o'r un newidynnau data sampl a ddewiswyd yn 3.1 (megis oed, cyfoeth neu unedau o fêl a gynhyrchir), gofynnwch i'r dysgwyr ddewis ffordd briodol o grwpio'r data. Yna gofynnwch iddynt llunio diagram amllder wedi'u grwpio i gymharu aelodau grŵp a'r rhai nad ydynt mewn grŵp.

Gorffennwch trwy ofyn i ddysgwyr gymharu'r cymedr, y canolrif a'r modd y maent wedi'u cyfrifo yng ngweithgaredd 3.1 â'u diagramau amllder wedi'u grwpio a rhannu eu harsylwadau.

Gweithgaredd 3.3 (10 mun)

Cyfrifo cymedr, canolrif a modd o ddiagram amllder wedi'u grwpio

Dangoswch i ddysgwyr y diagram amllder wedi'u grwpio ar sleid 10 yn sioe sleidiau 3. Gofynnwch beth ydyn nhw'n meddwl yw'r gwerthoedd modd, cymedr a chanolrif. Trafodwch y problemau gyda dod o hyd i'r gwerthoedd hyn gan ddefnyddio data wedi'u grwpio. Nodwch:

- Dim ond y dosbarth modd (bar talaf) y gallwn ei adnabod
- Dim ond y dosbarth sy'n cynnwys y canolrif y gallwn ei adnabod
- Dim ond amcangyfrif y cymedr y gallwn ei wneud, drwy ddefnyddio pwyntiau canol ac amleddau

Gweithiwch drwy'r camau, gyda thrafodaeth, o sut i ddod o hyd i'r cymedr o ddata wedi'u grwpio (mewn tabl neu ar ddiagram amledd wedi'u grwpio). Bydd sleid 11 yn sioe sleidiau 2 yn cefnogi'r dasg hon.

- Bydd y dysgwyr yn gwybod faint o fenywod sydd ym mhob categori wedi'u grwpio. Dywedwch wrth y dysgwyr i gymryd yn ganiataol ar gyfer yr ymarfer hwn fod y menywod i gyd ym mhwynt canol y categori. Mae dewis y pwynt isaf neu uchaf yn fwy tebygol o wneud yr amcangyfrif yn rhy fawr neu'n rhy fach. Dylai dysgwyr luosi'r pwynt canol gan yr amllder (nifer y menywod yn y categori hwnnw). Mae angen iddynt wneud hyn ar gyfer pob categori.
- Yna dylai'r dysgwyr adio'r canlyniadau ar gyfer pob categori. Y rhif terfynol yw eu *hamcangyfrif* o'r cymedr.
- Rhowch i bob grŵp y daflen waith dysgwyr 3B: *Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd o Ddiagramau Amllder wedi'u Grwpio* yn dangos dau ddiagram amllder wedi'u grwpio (un ar gyfer oedran y menywod sydd mewn grwpiau, un ar gyfer oedran y menywod nad ydynt mewn grwpiau). O'r rhain, bydd dysgwyr yn cyfrifo cymedr, canolrif a modd ac yna'n gwneud cymhariaeth.

Gweithgaredd 3.4 (10 mun)

Beth all canoldueddiadau ddweud wrthym?

Dangoswch ddata cymedr a chanolrif ar gyfer Ethiopia - unedau o fêl a gynhyrchir a'r canran sy'n cael ei farchnata ar sleid 12 yn sioe sleidiau 3, a blynyddoedd o addysg a chyfoeth ar sleid 13 yn sioe sleidiau 3 neu ar y daflen waith 'Ethiopia_Cymedr_Canolradd' ar daflen: Gwers_3.

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu ychydig frawddegau am yr hyn y mae'r cyfartaleddau hyn yn ei ddangos am aelodau grwpiau a'r rhai nad ydynt yn aelodau grwpiau yn Ethiopia. Gweler sleid 14 yn sioe sleidiau 3 am awgrymiadau.

Telerau defnydd

Hawlfraint © Think Global ac Oxfam DU

www.think-global.org.uk www.oxfam.org.uk

Gallwch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid i chi roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith prosiect.

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Sampl ar hap 1, y rhai nad ydynt mewn grwpiau

- Statws Priodasol = p'un a yw'r fenyw yn briod (1 = sengl; 2 = priod; 3 = gweddw; 4 = wedi gwahanu; 5 = wedi ysgaru; 6 = arall; 7 = rhy ifanc).
- Grŵp Ethnig = Ethnigrwydd (0 = grŵp ethnig lleiafrifol; 1 = grŵp ethnig mwyafrifol - Amhara yn Ethiopia)
- Dibyniaeth o ran bywoliaeth = faint o fywoliaeth y cartref sy'n dibynnu ar y cynnyrch (1 = y cyfan neu yn agos at y cyfan; 2 = tua hanner; 3 = peth ond llai na hanner; 4 = dim neu bron dim)

Oed	Statws Priodasol	Blynyddoedd o Addysg	Grŵp ethnig	Blynyddoedd o Brofiad	Dibyniaeth o ran bywoliaeth	Swm y Cynhyrchwyd	% Marchnata	Mynegai cyfoeth
40	2	0	1	10	3	9	100	36
40	2	0	1	10	4	9		53
45	2	0	0		4	40	100	50
70	2	0	0	50	4	20	100	41
38	2	0	1	1	3	40	100	49
50	2	0	1	7	4	5	100	39
22	2	0	0	4	1	165	91	63
30	2	0	1	8	3	50	100	36
45	2	0	0	10	4	10	100	17
35	2	0	1		3	13	100	26
50	3	0	1	30	4	2	100	11
30	2	0	1	2	4	22	91	38
30	2	0	1	10	4	15	100	36
42	2	0	1	19	4	6	83	28
30	2	0	1	3	3	7	100	18
25	2	0	1	5	4	8	100	33
45	2	0	1		3	25	100	30
60	2	0	0	35	4	3	100	34
35	2	0	1	5	3	29	100	28
40	2	0	1		4	3		41
36	2	4	1		3	23	100	57
35	2	0	1	20	3	14	100	43
35	2	0	1	1	3	5	100	19
30	2	0	1	10	2	32	100	33
30	2	0	1	3	4	5	100	33
32	2	0	1	2		5	100	27
25	2	0	1	3	4	80	100	47
20	2	0	1	5	3	15	100	36
28	2	0	1		3	5	100	26
43	2	0	0	20	4	9	100	28

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Sampl ar hap 2, y rhai nad ydynt mewn grwpiau

- Statws Priodasol = p'un a yw'r fenyw yn briod (1 = sengl; 2 = priod; 3 = gweddw; 4 = wedi gwahanu; 5 = wedi ysgaru; 6 = arall; 7 = rhy ifanc).
- Grŵp Ethnig = Ethnigrwydd (0 = grŵp ethnig lleiafrifol; 1 = grŵp ethnig mwyafrifol - Amhara yn Ethiopia)
- Dibyniaeth o ran bywoliaeth = faint o fywoliaeth y cartref sy'n dibynnu ar y cynnyrch (1 = y cyfan neu yn agos at y cyfan; 2 = tua hanner; 3 = peth ond llai na hanner; 4 = dim neu bron dim)

Oed	Statws Priodasol	Blynyddoedd o Addysg	Grŵp ethnig	Blynyddoedd o Brofiad	Dibyniaeth o ran bywoliaeth	Swm y Cynhyrchwyd	% Marchnata	Mynegai cyfoeth
30	2	0	1	4	3	50	100	27
28	2	0	1	5	3	60	100	44
45	2	0	0	20	3	30	100	38
34	2	0	1	3	3	20	100	52
28	2	0	1	5	3	15	67	46
45	2	0	1		3	50	100	54
34	2	2	1	2	4	15	60	55
35	2	0	1	20	4	5	100	41
35	2	0	1	20	3	60	100	24
20	2	1	1	2	4	6	100	36
30	2	8	1	7	3	25	100	38
52	2	0	1		4	20	100	38
28	2	0	0	8	4	7		42
48	2	0	1	6	3	40	100	31
50	2	0	1	10	4	10	100	42
40	2	0	1	23	4	8	100	34
30	2	0	0	10	4	4		34
60	2	0	1	5	4	3	67	39
40	2	0	0	10	3	6	100	21
30	2	0	1		3	70	100	45
60	2	0	1		4	6	100	25
35	2	0	1	5	2	5	60	40
40	2	0	1	10	4	6	100	29
40	2	0	1	2	3	40	100	32
32	2	0	1	5	3	13	100	46
35	2	0	1		4	8	100	51
55	2	0	1	15	3	30	100	35
30	2	0	1	10	4	5	100	29
50	4	0	1	20	1	5	60	39
50	5	0	1	2	3	15	100	16

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Sampl ar hap 3, y rhai nad ydynt mewn grwpiau

- Statws Priodasol = p'un a yw'r fenyw yn briod (1 = sengl; 2 = priod; 3 = gweddw; 4 = wedi gwahanu; 5 = wedi ysgaru; 6 = arall; 7 = rhy ifanc).
- Grŵp Ethnig = Ethnigrwydd (0 = grŵp ethnig lleiafrifol; 1 = grŵp ethnig mwyafrifol - Amhara yn Ethiopia)
- Dibyniaeth o ran bywoliaeth = faint o fywoliaeth y cartref sy'n dibynnu ar y cynnyrch (1 = y cyfan neu yn agos at y cyfan; 2 = tua hanner; 3 = peth ond llai na hanner; 4 = dim neu bron dim)

Oed	Statws Priodasol	Blynyddoedd o Addysg	Grŵp ethnig	Blynyddoedd o Brofiad	Dibyniaeth o ran bywoliaeth	Swm y Cynhyrchwyd	% Marchnata	Mynegai cyfoeth
28	2	0	1	6	3	40	100	40
28	5	0	1	2	3	25	100	11
40	4	0	1	2	1	3	100	40
32	2	5	1		3	10	100	38
45	2	0	0	20	3	30	100	38
46	2	0	1	3	4	5	100	43
30	2	0	1		3	40	100	33
30	2	0	1	6	3	24	100	25
27	2	0	1	10	3	50	100	30
38	2	0	0					
30	2	0	1	1	2	10	100	42
35	2	0	1	1	3	5	100	19
43	2	0	1	7	4	3		27
35	2	0	1	10	3	30	100	33
25	2	0	1	5	4	58	86	64
40	2	0	1	10	3	9	100	36
27	2	5	1		3	40	100	21
55	2	0	1	4	4	15	67	45
25	2	0	1	6	4	2		37
36	2	0	1	5	3	30	100	21
30	2	0	1	7	2	75	100	29
40	2	0	1	18	4	15	67	51
25	2	0	1	4	3	30	100	22
50	2	0	0	30	3	30	100	35
38	2	0	1		3	11	100	33
45	2	0	1	20	4	14	100	49
55	2	0	1	15	3	30	100	35
18	2	3	1	5	4	30	100	29
45	2	0	1	3	4	2	100	49
20	2	0	1	3	4	34	88	44

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Sampl ar hap 4, aelodau grwpiau WCA

- Statws Priodasol = p'un a yw'r fenyw yn briod (1 = sengl; 2 = priod; 3 = gweddw; 4 = wedi gwahanu; 5 = wedi ysgaru; 6 = arall; 7 = rhy ifanc).
- Grŵp Ethnig = Ethnigrwydd (0 = grŵp ethnig lleiafrifol; 1 = grŵp ethnig mwyafrifol - Amhara yn Ethiopia)
- Dibyniaeth o ran bywoliaeth = faint o fywoliaeth y cartref sy'n dibynnu ar y cynnyrch (1 = y cyfan neu yn agos at y cyfan; 2 = tua hanner; 3 = peth ond llai na hanner; 4 = dim neu bron dim)

Oed	Statws Priodasol	Blynyddoedd o Addysg	Grŵp ethnig	Blynyddoedd o Brofiad	Dibyniaeth o ran bywoliaeth	Swm y Cynhyrchwyd	% Marchnata	Mynegai cyfoeth
23	2	0	1	1	3	6	100	30
25	2	0	1	8	2	39	97	35
35	2	0	1		2	1	100	32
30	2	0	1	6	3	15	87	40
55	2	0	1		3	5	100	23
25	2	0	1	1	3	10	100	34
18	2	7	1	3	4	15	100	34
23	2	7	1	5	3	18	83	28
33	2	9	1	13	3	55	95	55
36	2	0	1	10	4	10	100	39
40	2	0	1	10	3	80	100	44
27	2	0	1		2	24	100	30
38	5	0	1					
33	2	0	1	16	3	52	90	71
30	2	0	1	6		40	100	18
30	2	0	1		1	35	100	37
35	2	0	1	10	3	100	95	44
37	2	0	1		3	30	90	31
28	2	4	1	2	3	21	71	37
47	2	0	1	20	2	76	100	82
34	5	0	1	7	3	10	100	8
22	2	8	1	2	3	15	100	27
25	2	0	1	6	3	54	100	30
27	2	0	1	13	2	26	100	45
30	1	0	1	7	3	22	100	25
80	1	0	1		3	30	100	14
28	5	0	1	1	2	30	100	23
25	2	0	1	9	3	160	100	29
36	2	0	1	17	3			81
19	2	8	1		3	15	100	24

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Sampl ar hap 5, aelodau grwpiau WCA

- Statws Priodasol = p'un a yw'r fenyw yn briod (1 = sengl; 2 = priod; 3 = gweddw; 4 = wedi gwahanu; 5 = wedi ysgaru; 6 = arall; 7 = rhy ifanc).
- Grŵp Ethnig = Ethnigrwydd (0 = grŵp ethnig lleiafrifol; 1 = grŵp ethnig mwyafrifol - Amhara yn Ethiopia)
- Dibyniaeth o ran bywoliaeth = faint o fywoliaeth y cartref sy'n dibynnu ar y cynnyrch (1 = y cyfan neu yn agos at y cyfan; 2 = tua hanner; 3 = peth ond llai na hanner; 4 = dim neu bron dim)

Oed	Statws Priodasol	Blynyddoedd o Addysg	Grŵp ethnig	Blynyddoedd o Brofiad	Dibyniaeth o ran bywoliaeth	Swm y Cynhyrchwyd	% Marchnata	Mynegai cyfoeth
28	2	0	1	4	3	27	93	57
25	2	0	1	4	3	70	50	35
38	2	0	1	5	2	63	100	40
25	2	3	1	14	2	70	100	25
41	2	0	1	7	3	20	50	42
39	2	0	1	20	3	32	63	61
22	4	5	1					
28	2	5	1	20	3	13	92	39
25	2	0	1	8	2	39	97	35
30	3	0	1		3			15
25	2	0	1	1	3	10	100	34
19	2	8	1		3	15	100	24
30	2	0	1		3	35	100	26
40	2	0	1	15	2	45	100	55
40	2	0	1	17	3	35	100	51
27	2	0	1		2	40	100	52
30	2	0	1	4	3	51	98	34
58	3	0	1					
30	2	0	1					
30	2	0	1	6	2	90	100	54
25	5	0	1	2		33	94	22
40	2	0	1		3	100	100	34
27	2	0	1	13	2	26	100	45
29	2	0	1	2	3	8	100	42
27	2	0	1	8	3	8	100	48
45	2	0	1	2	3	31	94	36
18	2	0	1		2	40	75	29
38	3	0	1	10	4	4	100	12
35	2	0	1	5	3	18	89	44
26	2	0	1	8	3	12	100	66


Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd - Data Ethiopia Sampl ar hap 6, aelodau grwpiau WCA

- Statws Priodasol = p'un a yw'r fenyw yn briod (1 = sengl; 2 = priod; 3 = gweddw; 4 = wedi gwahanu; 5 = wedi ysgaru; 6 = arall; 7 = rhy ifanc).
- Grŵp Ethnig = Ethnigrwydd (0 = grŵp ethnig lleiafrifol; 1 = grŵp ethnig mwyafrifol - Amhara yn Ethiopia)
- Dibyniaeth o ran bywoliaeth = faint o fywoliaeth y cartref sy'n dibynnu ar y cynnyrch (1 = y cyfan neu yn agos at y cyfan; 2 = tua hanner; 3 = peth ond llai na hanner; 4 = dim neu bron dim)

Oed	Statws Priodasol	Blynyddoedd o Addysg	Grŵp ethnig	Blynyddoedd o Brofiad	Dibyniaeth o ran bywoliaeth	Swm y Cynhyrchwyd	% Marchnata	Mynegai cyfoeth
25	2	0	1	3	3	50	100	18
36	2	0	1	16	3	28	89	60
27	2	0	1	8	3	8	100	48
38	3	0	1	10	4	4	100	12
26	2	0	1	3	3	8	100	54
37	2	0	1		3	8	100	31
26	2	0	1	4	3	45	100	45
35	2	7	1	8	3	4	100	56
40	2	0	1	20	3	110	100	43
30	2	0	1		4	10	90	27
35	2	0	1	8	3	35	100	35
18	2	0	1		2	40	75	29
57	2	0	1	8	3	75	100	47
45	2	0	1	8	3	95	98	65
38	4	0	1					
28	2	0	1	10	4	3	33	39
22	4	5	1					
40	2	0	1	8	3	60	100	32
30	2	6	1	16	3	310	100	61
30	1	0	1	7	3	22	100	25
25	2	0	1	4	3	70	50	35
34	2	5	1					
25	2	0	1	6	3	90	100	49
25	2	8	1	15	2	60	100	59
45	2	0	1		2	15	100	38
28	2	0	1		2	16	100	25
28	2	0	1	4	3	27	93	57
35	2	0	1		3	180	94	
43	2	0	1	5	3	14	100	55
29	2	0	1	8	3	40	100	45

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd o Ddiagramau Amllder wedi'u Grwpio

Diagramau Amllder wedi'u Grwpio - Oed Ffermwyr sy'n Fenywod a Holwyd yn Ethiopia



Oedran y
menywod

Cyfrifo Cymedr, Canolrif a Modd o Ddiagramau Amllder wedi'u Grwpio Diagramau Amllder wedi'u Grwpio - Oed Ffermwyr sy'n Fenywod a Holwyd yn Ethiopia

